

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH
17 Hydref 2017, Gosen, Llangwyllog
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL:	
Cyng D Pritchard, W Vaughan, D Morgan, A Wyn, D ap Rhobert, G D Williams, A C Jones, Cyng D Rees (Cyngor Sir) a dau aelod o'r cyhoedd	
YMDDIHEURIADAU:	
Cyng A Williams, D Roberts, W Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Pritchard. 'Roedd rhan gyntaf o'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd i drafod Llyn Frogwy. Mae lefel y dwr wedi mynd i lawr a nid yw pysgotwyr yn hapus â hyn. Dywedodd y Cadeirydd bod lefel y dwr wedi cael ei dynnu lawr oherwydd risg llifo. Cytunwyd a bu diffyg ymgynghori a pobl lleol. Mae'r llyn ar tir Frogwy Fawr. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at perchennog y tir i gofyn am y rheswm mae'r lefel wedi mynd i lawr.
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 12 Medi 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Gofeb Talwrn - Mae'r plac newydd wedi cael ei osod. Mae'r Clerc wedi derbyn cais i symud y plac yn Eglwys Llanddyfnan (gyda saith enw ychwanegol) ac i rhoi ar y gofeb, oherwydd bod yr Eglwys wedi cau. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Eglwys yng Nghymru.
4.2	Damwain sgwar Talwrn - Yn dilyn sgwrs gyda'r Cyngor Sir, dywedodd y Clerc bydd yr Adran Priffyrdd yn ail archwilio y mater
4.3	Halfway, Talwrn (ildio) - mewn llaw
4.4	Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth) - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru
4.5	Llwybr Cyhoeddus Bodfordd - Llyn Frogwy - Darllenwyd ymateb i'r Cadeirydd gan Rhun ap Iorwerth. Mae'r Aelod Cynulliad yn disgwyl am mwy o wybodaeth gan y Cyngor Sir
4.6	Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn - Dywedodd Cyng D Morgan bod adroddiadau blynyddol Gwynedd a Môn dim wedi dod allan ers 2011. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu atynt yn nodi y dyled ystyried yr hyn a gytunwyd
4.7	Paentio rheiliau y Gofeb - mewn llaw
4.8	Cysgodfan Bws Talwrn - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir wedi cadarnhau nid oes angen cais cynllunio i codi cysgodfan. Bydd Cyng W Vaughan yn cynnig gwahoddiad i preswylwyr o gwmpas y safle arfaethedig i'r cyfarfod nesaf i drafod y mater.
Llofnod.....Cadeirydd	
28.11.17	

4.9	Tyfiant o gwmpas arwydd y siop - mewn llaw
4.10	Polisi y Cyngor Sir ar cwn ar y traethau - Dywedodd Cyng D ap Rhobert bod anghysondeb ar rhai traethau. Mae rhai yn gadael cwn ar y traeth a rhai ddim. Bydd y Clerc yn gofyn am polisi pob traeth ar yr Ynys.
5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
5.1	23C280F Plas Llanfihangel - penderfyniad yr apêl. Llythyr yn cadarnhau bod yr ymgeiswyr wedi ennill yr apel.
	Busnes y Cyngor
5.2	Gorchymyn Cyngor Ynys Môn - Gwahardd traffig trwodd dros dro. Bydd y B5109 sydd yn pasio Maes y Coed ar gau 02.11.17 ar gyfer gwaith BT Openreach
	Pwyllgor Safonau
5.3	Adolygiad o Gofrestrau Diddordebau Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned - Trafodwyd a derbyniwyd adolygiad y Pwyllgor Safonau. Hefyd, derbyniwyd y model Côt Ymddygiad. Mae y Clerc ar hyn o bryd yn cadw rhestr (papur) o datganiadau o diddordeb a bydd o hyn ymlaen yn cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan.
	Prif Weithredwr
5.4	Ymgynghoriad Ysgol Talwrn - Sylwadau: Mae'r Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi y barn lleol i peidio cau yr Ysgol. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, a wedi bod efo 42 - 49 o ddisgyblion drost y blynyddoedd diwethaf ac ysgolion gynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol. Mae tua 100 o dai yn cael ei adeiladu yn Llangefni. A fydd lle i blant o'r eiddo hyn y Ysgol y Graig?
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
	Dim
7	MATERION ARIANNOL
7.1	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
7.2	BDO Southampton -derbyn adroddiad blynyddol - Derbyniwyd yr adroddiad a sylwadau: Mae angen manylion cyswllt y Clerc a'r aelodau ar y wefan. Cytunwyd i gyhoeddi rhifau ffôn symudol pob aelod ar y wefan. Mae angen ail asesu yr asedau pob blwyddyn.
7.3	Cytunwyd i dalu G Hughes £300 - torri gwair
8	MATERION ERAILL
8.1	Broadband Talwrn - cytunwyd i gohrio y mater (gweler 5.2)
8.2	Car wedi'i dympio yn Talwrn - mae'r car wedi cael ei symud
8.3	Trefnu gosod y plac ar y Gofeb - gweler 4.1
	Llofnod.....Cadeirydd 28.11.17

8.4	Coed angen ei dorri o gwmpas lamp (rhif 5) wrth ymyl Bodlondeb (hefyd lamp wrth ymyl Hafod y Coed) - bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
8.5	RAF y Fali - Dywedodd Cyng A Wyn bod swm awyrennau drost Llangwyllog wedi gweithygu. Soniodd am dan plentyn yn crio oherwydd y swm a bod y swm yn beryg i clyw. Mae wedi gwneud cwynion drost y ffôn a wedi gadael negeseuon ar y peiriant ateb a neb yn dod yn ol ataf. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a nhw trwy lythyr. Hefyd i ofyn beth yw eu polisi ar y iaith Gymraeg
8.6	Canolfannau Hamdden - Dywedodd Cyng A Wyn bod staff yn y canolfannau drost yr Ynys ddim yn siarad Cymraeg. Cynigodd Cyng D Rees dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
9	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
	Dim
	<p>Llofnod.....Cadeirydd 28.11.17</p>